Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.456

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Prosiect Cadw Batris ac arae ffotofoltaidd solar y Pencadlys**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Bwriedir i osodiad arfaethedig arae ffotofoltaidd solar a storfa fatris cysylltiedig ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Llangynnwr, Caerfyrddin, leihau allyriadau carbon presennol y pencadlys o 149,242 cilogram/$CO^2$ y flwyddyn.

Y defnydd presennol o’r prif gyflenwad trydan ar gyfer y Prif Adeilad a Chanolfan Gyfathrebu’r Heddlu gyda’i gilydd yw 1,277,079 kWh y flwyddyn. Bydd y gosodiad solar arfaethedig yn ei leihau i 673,1109 kWh y flwyddyn. Mae’r buddsoddiad arfaethedig hwn mewn cynaliadwyedd a datgarboneiddio yn unol â’r ymrwymiad o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu, gyda’r CHTh yn cyfeirio’n benodol at y buddsoddiad yn y fferm solar fel ymrwymiad.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo argymhelliad yr Adran Ystadau i roi’r cytundeb i CBRE ar gyfer gosod arae ffotofoltaidd solar a storfa fatris ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys drwy’r cyflenwr Highland Services. Mae cwmpas y gwaith hefyd yn cynnwys gwaith sifil/tir, gan gynnwys diweddariadau panel foltedd isel yng Nghanolfan Gyfathrebu’r Heddlu, sydd ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Gydag ychwanegiad swm wrth gefn o 15%, mae’r gwariant cynllun cymeradwy ar gyfer y prosiect yn sefyll ar £1,692,176.63. Y cyfnod ad-dalu yw 12.5 mlynedd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 22/04/2026**